

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF
BAE COLWYN, A GYNHALIWDYD NOS FERCHER, 18^{FED} TACHWEDD 2015 AM
6.30 P.M. YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW,
BAE COLWYN**

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd Dr S. Roy
Y Cynghorydd D. Griffiths, (Cadeirydd)
Cynghorwyr: C. Hughes, A. Khan, A. Mason, Mrs H. Meredith, Mrs
V. Perry.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Mr H. Barlow-Edwards, Myfyriwr Ymgynghorol

218/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Adrian Mason gan y Cadeirydd ar ei lwyddiant yn yr isetholiad diweddar ac fe'i croesawyd, ynghyd â Harry Barlow-Edwards i'w cyfarfod Pwyllgor cyntaf. Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr T. Pearson, P. Richards, G. Ward.

219/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganwyd y cysylltiadau canlynol:

- Cynghorydd S. Roy – Eitem 15 ar yr agenda – Lwfans Ardal Aelodau Lleol – Cynnig am Brosiect
- Cynghorydd D. Griffiths - Eitem 16(a) ar yr agenda - Promenâd Llandrillo yn Rhos: Cais am gefnogaeth.

220/15 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30^{ain} Medi 2015.

221/15 Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol:

a. Cofnod 121/15(e) – Cynllun Ardal / Lle:

Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar lafar yn dilyn cyfarfod gyda James Harland, CBS Conwy. Rhoddodd amlinelliad o'r broses tri cham sy'n cael ei ddefnyddio yn Abergele i greu 'Cynllun Lle'. Defnyddir gwefan both cymunedol, cyfryngau cymdeithasol ac amryw o ddigwyddiadau a drefnwyd i asesu sylwadau'r trigolion lleol. Fe nodwyd bod cyflwyniad ar y broses yma i'w roi yng nghyfarfod fforwm CBS Conwy / Cynghorau Tref a Chymuned yn y man, pan fydd y gallu i ddyblygu'r meddalwedd a'r prosesau mewn mannau eraill wedi cael ei sefydlu.

Mynegwyd pryder gallai fod ormod o drefniadau ac oni bai bod yna ddigon o gyllid ar gael i gyflwyno rhai o'r prosiectau / syniadau, yna gall pobl colli diddordeb ac ymatal rhag cymryd rhan. Fe nodwyd, oherwydd y newidiadau diweddar i'r ddeddfwriaeth, bydd 20% o ardollau isadeiledd cymunedol yn y dyfodol (o gynlluniau adeiladu newydd - yn cymryd lle cytundebau Adran 106) ar

gael i gynghorau Tref a Chymuned i'w ddyrannu yn eu hardaloedd, ond bydd trefniadau cymunedol yn angenrheidiol i benderfynu ar flaenoriaethau gwario.

b. Cofnod 179/15 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) – Ymgynghoriad ar Arweiniad:

i Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Clerc bod Deddf LICD yn debyg i fod yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth ar gyfer yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yna ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor Tref i gymryd pob cam rhesymol i helpu i gyd-fynd â'r amcanion llesiant a gytunwyd ar gyfer yr ardal leol (gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd). Roedd yn ddeddfwriaeth oedd yn torri tir newydd ac roedd gwledydd eraill yn gwylio gyda diddordeb. Roedd yr ymgynghoriad presennol yn ymwneud â'r cyfarwyddyd a ddisbarthwyd i gyrff sy'n destun i'r Ddeddf. Paratowyd dogfen esboniadol (SPSF4) ar wahân i helpu Cynghorau Tref a Chymuned i ddeall beth yw eu dyletswyddau. Mynychodd y Clerc gweithdy ar 4/11/15 gyda chynrychiolwyr o gynghorau tref leol eraill (sydd dros yr hicyn £200,000) a rhoddwyd adborth yn uniongyrchol i'r swyddogion o Lywodraeth Cymru ar le'r oedd angen cryfhau'r cyfarwyddiadau.

Fe nodwyd ymhellach y gweithgareddau gall y Cyngor dechrau ar rŵan i baratoi i alinio ei gweithgareddau i gyd-fyn a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Penderfynwyd argymell diwygio'r holl ffurflenni cais am Grantiau i gynnwys adran am y nodau llesiant cenedlaethol, yn gofyn i ymgeiswyr amlygu pa un o'r nodau bydd y prosiect / gweithgaredd yn cyfrannu tuag at a rhai lle efallai fydd yna effaith negyddol.

Fe benderfynwyd ymhellach i argymell i GBS Conwy i wahodd Sophie Howe, Comisiynydd newydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i ddod i gyfarfod Fforwm CBS Conwy / Cynghorau Tref a Chymuned yn y man.

ii Cyflwynodd y Clerc nodiadau cyfarfod Pwyllgor y Cynghorau Mwy, Un Llais Cymru a gynhaliwyd ar 14 Hydref lle cafwyd trafodaeth hir am y cyfarwyddyd ar Ddeddf LICD ac fe godwyd nifer o bwyntiau allweddol. Fe benderfynwyd bod y Prif Weithredwr i baratoi ymateb Un Llais Cymru gan gynnwys y sylwadau hyn a bod yr ymateb i gael ei gylchredeg i'r cynghorau mwy cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fe anfonwyd ymateb Un Llais Cymru i'r ymgynghoriad (heb ei gylchredeg) ac nid oedd yn ymddangos i fod yn ymdrin â'r pwyntiau a godwyd.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Un Llais Cymru i ofyn pam nad oedd yr ymateb wedi ymdrin â'r pwyntiau a godwyd ym Mhwyllgor y Cynghorau Mwy.

c Cofnod 146/15 - Grantiau i Ddigwyddiadau - Gŵyl y Cyfnos:

Fe nodwyd bydd gweithgareddau Gŵyl y Cyfnos yn digwydd ar ddydd Mercher 2^{il} Rhagfyr o 4pm tan 8pm i gyd-fynd a digwyddiad mawr Coca Cola.

ch Cofnod 174/15 – Gweithgareddau Nadolig y Siambr Fasnach:

Cyflwynodd y Clerc copiâu o bosteri'r digwyddiadau yn cadarnhau'r dyddiad a'r lleoliad(au) newydd ar gyfer y ddau Gyngerdd.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a'i nodi a chroesawu'r newid yn nyddiad / lleoliad(au) ar gyfer cyngerdd y pobl ifanc.

222/15 Cyllid / Archwilio:

- a. ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 19/9/15 i 31/10/2015.***
- b. ***Penderfynwyd derbyn a llofnodi copi o ddatganiadau cysoni diweddaraf y banc.***
- c. Cyflwynodd y Clerc adroddiad ar Gronfa Eiddo Awdurdodau Lleol CCLA er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r diweddariad am y gronfa.

- ch. Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, gwybodaeth ac amcan brisiau am becynnau meddalwedd 'Llogi Cyfleusterau' sydd ar gael gan RBS (y cyflenwr meddalwedd Cyllid presennol) ag Edge Systems (cwmni arall sy'n cyflenwi meddalwedd i gynghorau lleol). Fe nodwyd byddai'r defnydd o feddalwedd arbenigol i reoli llogi ystafelloedd nid yn unig yn help i roi bas data dibynadwy wrth gefn am hyn, ond hefyd yn helpu i roi gwasanaeth mwy effeithlon ac arbed amser wrth baratoi anfonebau ac adroddiadau am y defnydd ayb. Byddai hefyd yn gallu cynyddu pe bai mwy o ystafelloedd yn dod ar gael i'w llogi (e.e. yr estyniad yn y cefn). Er mai amcan bris RBS oedd y drytaf ar gyfer y pryniant cyntaf a'r costau o'i baratoi, cytunodd yr Aelodau y gallai hyn fod o fantais yn yr hirdymor, oherwydd y fantais o allu cysylltu â meddalwedd cyllid presennol y Cyngor ac felly arbed amser staff wrth gofnodi taliadau a dilyn yr anfonebau na chawsant eu talu.

Penderfynwyd argymhell bod y Clerc yn trefnu arddangosiad o feddalwedd RBS, i'w gymharu â'r arddangosiad a gafwyd eisoes gan Edge Systems, ac yna bod y Pwyllgor hwn i dderbyn argymhelliad i'w gynnwys, efallai, yn Amcangyfrifon Blynyddol 2016/17.

- d. Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, copi o adroddiad monitro cyllideb Incwm / Gwariant am y cyfnod hyd at 31^{ain} Hydref 2015. Fe nodwyd bod tanysgrifiadau a chefnogaeth i TG tros ben y gyllideb oherwydd penderfyniadau a wnaed ar ôl i'r Amcangyfrifon cael eu cymeradwyo (aelodaeth o Un Llais Cymru a gwasanaethwr pell Microshade) ond roedd gweddill y gwariant o fewn y gyllideb.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad Incwm / Gwariant hyd at 31/10/15.

223/15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- a. Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Grŵp Swyddogion Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 26^{ain} Hydref, yn cynnwys diweddariad am y posibilrwydd o brynu eiddo ar Ffordd Abergele, Prosiect Lan y Môr (dal i ddisgwyl penderfyniad ar gyllid), pleidlais Ardal Gwella Busnes Colwyn (BID), yr adolygiad o'r Prif Gynllun a gwelliannau i Orsaf Rheilffordd Bae Colwyn.

b. Ardal Gwella Busnes Colwyn (BID):

Cyflwynodd y Clerc copi o Brosiectws BID er gwybodaeth.. Fe nodwyd bydd y Cyngor Tref yn derbyn taliad o £270 y flwyddyn yn seiliedig ar werth trethiant presennol Neuadd y Dref.

Penderfynwyd cymeradwyo'r bleidlais Ie yn yr etholiad.

- c.** Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfodydd diweddar, Rhwydwaith y Clercod a Fforwm CBS Conwy / Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 22^{ain} Hydref.

Fe nodwyd bod hyfforddiant adnewyddu ar y Cod Ymddygiad yn cael ei argymhell i o bob Aelod (cynhaliwyd y diwethaf yn 2012) a bod yna ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd ar adolygiad o flaenoriaethau 'Un Conwy' ac fe anogwyd pob aelod i ymateb fel unigolion.

Penderfynwyd gofyn am gopi o sleidiau cyflwyniad y Cod Ymddygiad fel gall y Clerc rhoi cyflwyniad i gyfarfod o'r Cyngor yn y man.

224/15 Llywodraeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc y dogfennau Ymgynghori / Arweiniad canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- a. Modelau o Dulliau Eraill o Gyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gwaith am ymgynghoriad.**

Fe nodwyd bod y cynllun gwaith yn gosod proses gyda chamau i helpu cyrff cyhoeddus i benderfynu os oes dulliau eraill mwy addas o gyflwyno rhai gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn gwneud yn glir nad yw Llywodraeth Cymru ond yn hyrwyddo cyflwyniad gan gorff cydweithredol neu gilyddol os nad oes dewis arall i roi gwasanaeth yn gyfan gwbl.

Penderfynwyd nodi'r ddogfen ymgynghori.

- b. Sut i Fesur Cynnydd Cenedl ? Cynigion am Ddangosyddion Cenedlaethol i Fesur Cynnydd yn erbyn y Saith o Nodau Llesiant.**

Mynegwyd pryder gall y 40 o ddangosyddion arfaethedig cael y canlyniad o greu mwy o reoleiddio a chynnydd mewn monitro, a fyddai'n ychwanegu at y pwysedd ar weithlu'r gwasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysedd. Fodd bynnag, fe gydnabuwyd bod angen rhyw fath o ffon mesur i alluogi Llywodraeth Cymru i weld os oes cynnydd yn erbyn y nodau llesiant.

Penderfynwyd argymhell anfon ymateb cyffredinol i ddatgan bod y Cyngor Tref yn pryderu am y rheoleiddio a monitro gormodol a gall y gwaith ychwanegol o fabwysiadu'r 40 o ddangosyddion cenedlaethol creu pwysedd ar staff a gwasanaeth cyhoeddus sydd eisoes dan gymaint o bwysedd.

- c. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, galwad am dystiolaeth ar gyfer Mesur drafft Gwasanaethau'r Ombwdsmon Cyhoeddus (Cymru).

Penderfynwyd derbyn a nodi'r galwad am dystiolaeth.

225/15 Swyddfa Archwilio Cymru:

Cyflwynodd y Clerc llythyr yn amlinellu'r trefniadau a'r ffioedd ar gyfer archwiliadau 2015-16 hyd at 2018-19. Fe nodwyd bod taliad y Cyngor Tref am yr archwiliad allanol yn gostwng o £650 i rhwng £200 a £380.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a chroesawu'r gostyngiad yn ffioedd yr archwiliad allanol.

226/15 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, Adroddiad Blynyddol drafft ac argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Fe nodwyd bod yr adroddiad drafft yn cynnwys cynigion am ddau lwfans newydd i Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned: taliad hyd at dri 'cyflog uwch' i gydnabod swyddogaethau penodol aelodau mewn cyngorau mwy (Penderfyniad 45) ac ymestyn yr ad-daliad o gostau teithio i gynnwys dyletswyddau a gymeradwywyd o fewn ffiniau'r awdurdod (Penderfyniad 48). Fe nodwyd bydd y Cyngor yn gorfod penderfynu pa benderfyniadau yr hoffai mabwysiadu ym mlwyddyn ariannol 2016/17 unwaith caiff yr adroddiad ei gyhoeddi (disgwylir yn Chwefror 2016) a cyn y Cyfarfod Blynyddol nesaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad drafft.

227/15 Awdurdod Tân ag Achub Gogledd Cymru:

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, yr ymgynghoriad cyhoeddus 'Eich Gwasanaeth, Eich Dewis' ar gyfer gwasanaethau yn 2016-17 a thu hwnt.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ddogfen ymgynghori.

228/15 Adeilad Ffordd Rhiw – Cytundebau Cyflenwi Nwy a Thrydan:

Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar lafar, yn dilyn y trosglwyddiad o'r adeiladau i'r Cyngor Tref ym Medi. Canlyniad hyn oedd bod cytundebau blaenorol CBS Conwy am gyflenwi nwy a thrydan i'r safle wedi dod i ben. Fe nodwyd bod cwmni cymharu ynni wedi cael ei gyflogi ar ôl i'r cyflenwadau cael eu trosi i raddfeydd 'allan o gytundeb' uwch. Cysylltodd y Clerc â Chadeirydd Pwyllgor Polisi a Chyllid cyn arwyddo'r cytundebau newydd tair blynedd i gyflenwi nwy a thrydan. Fe nodwyd ymhellach bod manylion llawn o'r amcan brisiau a dderbyniwyd ar gael gan y Clerc ar gais.

Penderfynwyd cymeradwyo'r hyn a wnaed gan y Clerc mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor Polisi a Chyllid ac i gymeradwyo'r llofnodi adolygol o'r cytundebau newydd tair blynedd am ynni.

229/15 Pensiynau a Chofrestriad Awtomatig:

Cyflwynodd y Clerc nodyn hysbysiad diweddar gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (CCCLI) yn hysbysebu bod y graddfeydd contractio allan Yswiriant Cenedlaethol yn dod i ben o Ebrill 2016. Fe nodwyd bydd hyn yn codi graddfeydd cyfraniadau yswiriant cenedlaethol gweithwyr a chyflogwyr sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Daw hyn i rym yn Ebrill 2016 a bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau ariannol ar gyfer y cynnydd disgwylidig wrth iddi baratoi rhagolygon cyflogau ar gyfer Amcangyfrifon Blynyddol 2016/17.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r nodyn hysbysiad gan CCCLI.

230/15 Un Llais Cymru (ULIC):

Rhoddodd y Cynghorydd H. Meredith adroddiad byr ar lafar am gyfarfod y Pwyllgor Ardal a gynhaliwyd ar 14^{eg} Hydref 2015. Fe nodwyd bod y cyfarfod hwnnw wedi cael ei gynnal ar yr un dyddiad a chyfarfod Pwyllgor y Cynghorau Mwy ac na fu'n bosibl i fynychu'r ddau gyfarfod. Roedd y drafodaeth yn y cyfarfod wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddyletswydd newydd llesiant a chwynion gan rai o'r cynghorau mwy am lefel y tanysgrifiadau oedd yn troi rhai cynghorau rhag ymuno / parhau i fod yn aelodau.

Trafodwyd y posibilrwydd o alluogi'r Cyngor Tref i brynu a chael gwasanaeth cyfreithiol arall, efallai trwy Gymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLIGChC) os oedd am ymadael o ULIC blwyddyn nesaf. Fe nodwyd nad hwn oedd yr unig wasanaeth a roddwyd gan ULIC a bod nifer o fudiadau (yn cynnwys Llywodraeth Cymru) yn defnyddio ULIC yn awr os oeddynt am gyflogi neu ymgynghori â sector y cynghorau lleol ac fe roddir llawer math o gyngor a chyfarwyddyd ar ymarfer gorau hefyd gan ULIC.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu â ChBS Conwy i ofyn a fyddai'n bosibl i 'brynu i mewn' gwasanaethau cyngor cyfreithiol mae'n ei rhoi ac / neu wasanaethau cyfreithiol gan Awdurdod Lleol cyfagos mewn achosion lle gall gwrthdaro mewn diddordeb bodoli.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Cynghorydd Meredith ofyn i CCLIGChC a fyddai'n gallu edrych i mewn i'r costau o gael gwasanaeth cyngor cyfreithiol i roi i'r cynghorau sy'n aelodau.

231/15 Hyfforddiant Staff:

Fe nodwyd bod adroddiad ysgrifenedig y Clerc ar Gynhadledd Genedlaethol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (CCCLI) a chwrs un diwrnod CCCLI ar Amcan Brisiau, Cytundebau a Thendro i gael ei gyflwyno i gyfarfod Ionawr y Pwyllgor.

232/15 Lwfansau Ward Aelodau Lleol (LWAL):

Cyflwynodd y Clerc cynnig am brosiect gan y Cynghorydd Sibani Roy i'w ystyried.

Pendefrynwyd cymeradwyo cynnig y Cynghorydd Roy i gyfrannu £200 o'i LWALL i Ysgol Llandrillo yn Rhos (ar gyfer prosiect garddio'r Ysgol) a £100 tuag at grŵp gwirfoddol Cyfeillion Parc Rhos.

233/15 Grantiau:

- a. Cyflwynodd y Clerc cais gan y Cynghorydd D. Griffiths am gefnogaeth mewn egwyddor am gyfraniad o hyd at £7,000 tuag at gostau Adran ERF, CBS Conwy i baratoi Bil Priodweddau a chynlluniau manwl i wella / lledaenu'r Promenâd yn Rhos Point er mwyn gwella'r llwybrau cerddwyr a beicwyr. Fe nodwyd bydd cyfanswm y costau am y rhan cychwynol hyn o'r gwaith i fod oddeutu £30,000 ac mae'r posibilrwydd o roi lle parcio ychwanegol yn cael ystyried. Hysbyswyd yr aelodau gan y Clerc bod y Cyngor Tref eisoes wedi cymeradwyo cyfraniad o £5,200 tuag at gynllun arall o'r fath a gyflwynwyd gan Grŵp Amgylcheddol Gweithredol Llandrillo yn Rhos. Ni thalwyd y swm hyd yn hyn am fod y prosiect wedi cael ei wrthod gan Bwyllgor Grantiau CBS Conwy.

Penderfynwyd ysgrifennu at Bennaeth ERF, CBS Conwy i gadarnhau bod y Cyngor Tref ar hyn o bryd wedi clustnodi £5,200 tuag at y prosiect hwn, a'i bod yn ei gefnogi mewn egwyddor. Roedd bod angen i gynigion manwl diweddar cael eu cyflwyno cyn y gellid rhyddhau'r cyllid hwn ac / neu fe allai'r Cyngor Tref ystyried cynyddu ei gyfraniad i hyd at £7,000.

- b. Fe nodwyd bod llythyrau o ddiolch, adroddiadau neu werthusiadau wedi cael eu derbyn oddi wrth y canlynol a dderbyniodd grantiau (ar gael gan y Clerc ar gais):
- i. Siop Cyngor ar Fudd-daliadau
 - ii. Clwb Fowlio Parc Rhos.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25 p.m.

.....Cadeirydd